



AD CLERUM

Oddi wrth yr Esgob/From the Bishop

Mehefin 2018

Gwasanaeth Ordeinio Gŵyl Bedr

Eleni, ordeinir deg ymgeisydd, a disgwyliaf weld y Gadeirlan yn llawn ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 30^{ain} am 10.30am. Gwnewch eich gorau, os gwelwch yn dda, i ddod i'r gwasanaeth i gefnogi eich cydweithwyr a hynny, efallai, er gwaetha'r ffaith nad ydych yn adnabod y bobl yn bersonol.

Y mis hwn, felly, cofiwch mewn gweddi y canlynol, a ordeinir i urdd offeiriad: -

Susan Barnett GHG(LI)
Adam Bruce GHG
Jim Flanagan
Gaynor Ford GHG
Wyn Maskell GHG(LI)
Jonathan Parker

A hefyd y canlynol, i'w gwneud yn ddiaciaiaid: -

Shirley Murphy
Helen Nicholls GHG(LI)
Timothy Brian Nelson GHG(LI)
Lindy Fay Morgan GHG(LI)

Yr Hybarch Dennis Wight fydd arweinydd yr encil Ordeinio, ac ef hefyd fydd yn pregethu yn y gwasanaeth.

Cofiwch yn ogystal am Aled Lewis sydd i'w ordeinio'n offeiriad yng Nghadeirlan Aberhonddu ar yr un diwrnod, a hynny gan yr Archesgob.

Priodol yw cofio, ymhellach, am Susan Lilleyman a fu farw, ysywaeth, yn gynharach eleni. Bwriadwyd i Susan gael ei derbyn yn ddiacon yn y gwasanaeth ordeinio; dymunwn fendith Duw, gan hynny, ar ei theulu a'i chyd-ymgeiswyr.

Synodau Archddiaconiaethol

Mawr obeithiaf fod eich darpar dîmau AWL wedi medru cyfarfod i baratoi ar gyfer ein synodau Archddiaconiaethol; edrychaf ymlaen i glywed eich cyflwyniadau byrion (10 munud). Fy ngobaith yw gweld y dydd yn esgor ar rannu syniadau a thrafod buddiol ynglŷn â'r hyn sydd o'n blaenau.

Cychwynnir bob dydd â choffi am 10.30 gan orffen amser tē am 3.30pm. Dewch â chinio canol dydd gyda chi. Gwelir isod y lleoliadau: -

Archddiaconiaeth Caerfyrddin: Dydd Mawrth 10^{fed} Gorff 2018, Eglwys Sant Ioan, Caerfyrddin
Archddiaconiaeth Ceredigion: Dydd Mercher 11^{eg} Gorff 2018, Eglwys y Drindod Sanctaidd, Aberaeron

Y Gwir Barchedig/The Right Reverend Joanna Penberthy, Llys Esgob, Abergwili, Caerfyrddin SA31 2JG

Archddiaconiaeth Tyddewi: Dydd Iau 12^{fed} Gorff 2018, Ty'r Pererin, Tyddewi.

Wythnos Cenhadaeth i Gymru

Wedi cyfarfod adeiladol gyda chynrychiolwyr Eglwys Cornerstone, cytunwyd y gallai ein heglwysi yn Esgobaeth Tyddewi gymryd rhan yn y genhadaeth a elwir *Cenhadaeth i Gymru*, gan gydweithio yn unig â phlwyfi eraill yng Nghymru neu "eglwysi cyfamodol" eraill fel ag a ddisgrifir yma <http://www.cytun.org.uk/covenant75.html>.

Fe allai ein plwyfi ni, gan hynny, yn yr Eglwys yng Nghymru, fod yn rhan o'r wythnos genhadu (Mehefin 27 - Gorffennaf 1^{af} 2018) a derbyn cefnogaeth gan rwydwaith New Wine Cymru, gan gyflwyno data iddynt a derbyn cefnogaeth ac anogaeth ganddynt, ond gan redeg cenhadaeth gyfochrog, gyd-gefnogol, mewn gwirionedd.

Mae cydweithio â Christionogion eraill, er mwyn grymuso'r ffydd o'r newydd yng Nghymru, yn rhywbeth i'w gymeradwyo a'i annog. Er hyn, mae yna rai pethau sylfaenol a ddaeth i'r golwg llynedd, sy'n destun gofid ac na ellir eu hanwybyddu. Hyd nes yr eir i'r afael â'r rhain, ni allaf gymeradwyo partneriaeth waith fwy ffurfiol gyda'r fenter genhadol hon. Anogir eglwysi rhyddion megis Cornerstone i ddechrau trafod gyda Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) er mwyn dod i undeb gyda'r eglwysi cyfamodol, gan greu, drwy hynny, partneriaethau cedyrn gyda ni.

Gwisg Litwrgaidd


Diolch i chi am eich sylwadau niferus am yr eitem hon yn fy rhifyn Ad Clerum diwethaf. Rwy'n ymddiheuro os na fu cyfle i ymateb yn bersonol i bawb ohonoch.

Os dymunwch ymwrthod rhywbryd, â'n traddodiad Anglicanaidd o wisgo yn litwrgaidd, awgrymaf eich bod yn anfon ebost byr i'm CP Dawn Evans, gan amlinellu'r amgylchiadau os gwelwch yn dda. Fe drafodaf y rhain gyda'i gilydd yng nghwmni'r Archddiacon perthnasol, a chewch wybod yr ymateb ganddynt hwy.

Rhannu'r Ad Clerum hwn

A allech rannu'r Ad Clerum hwn gydag unrhyw glerigwyr yn eich plwyf sydd â chaniatâd i wasanaethu, gan na fu i nifer ohonynt ein hysbysu o'u cyfeiriad ebost. Diolch.

Yr eiddoch yng Nghrist,

A handwritten signature in black ink on a light blue rectangular background. The signature reads '+ Joanna Tyddewi' in a cursive script.